


# Cynllun Hawliau Plant 2021



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Canlyniadau'r ymgynghoriad drwy fideo-  
gynadledda gyda phlant a phobl ifanc  
ledled Cymru.

Ionawr – Mawrth 2021



Cynhaliwyd  
gan:



# Cynnwys

1. Cydnabyddiaethau .....	2
2. Cyflwyniad .....	2
3. Methodoleg .....	3
4. Adborth yr ymgynghoriadau .....	10
5. Casgliadau .....	27

## 1. Cydnabyddiaethau

Hoffai Re:cognition gydnabod ymrwymadau arloesol a brwdfrydig y plant a'r bobl ifanc a wnaeth yr ymgynghoriad hwn yn bosibl. Hoffem hefyd ddiolch a chydabod cymorth y sefydliadau a hwylusodd fynediad i'w pobl ifanc. Roedd y rhain yn cynnwys: Gwasanaeth Ieuentid Torfaen, Cyngor Hil Cymru, Cynghorau a fforymau Ieuentid Gwent, Gwasanaeth Ieuentid Wrecsam, Hawliau Plant Sir Gaerfyrddin, grŵp pobl ifanc anabl, gofawyr ifanc o bob rhan o ardaloedd awdurdodau lleol, grwpiau Ieuentid LGBTQ+ a phrentisiaid ifanc Gwent am helpu i drefnu'r digwyddiadau hyn. Hoffem hefyd ddiolch i'r nifer fawr o bobl o ryw 23 o sefydliadau a ddaeth at ei gilydd i gynnig eu barn a'u mewnwelediadau ar gyfer y digwyddiadau hyn.

Ymgysylltom gyda chyfanswm o 84 o blant a phobl ifanc.

## 2. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi arwain y ffordd o ran hyrwyddo hawliau plant. Mae ei dull gweithredu yn seiliedig ar ymrwymiad i'r egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Mae CCUHP yn gytundeb rhyngwladol sy'n diogelu hawliau dynol plant a phobl ifanc. Llywodraeth Cymru oedd y cyntaf o'r pedair gwlad yn y DU i fabwysiadu CCUHP fel dyletswydd a'i osod wrth wraidd ei holl waith. Er mwyn helpu i gyflawni'r broses o weithredu'r Confensiwn, pasiwyd 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)' 2011.

Roedd y mesur hwn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi 'sylw dyledus' i'r hawliau a'r rhwymedigaethau a osodwyd o fewn CCUHP a'i brotocolau dewisol; wrth ddatblygu neu adolygu deddfwriaeth a pholisi. Mae sylw dyledus yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion roi'r pwyslais priodol ar ofynion CCUHP, gan eu cydbwysu yn erbyn yr holl ffactorau eraill sy'n berthnasol i'r penderfyniad dan sylw.

Cydnabu Llywodraeth Cymru na ddylai 'sylv dyledus' ddechrau a gorffen gyda swyddogaethau Gweinidogol, felly o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014, estynnwyd y ddyletswydd o roi sylw dyledus i CCUHP i bawb sy'n arfer swyddogaethau o dan ddeddfwriaeth arweiniol.

Roedd y mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru greu Cynllun Plant sy'n pennu'r trefniadau er mwyn i'r Llywodraeth gydymffurfio â'i dyletswydd. Rhaid adolygu a datblygu'r cynllun hwn yn rheolaidd hefyd.

Mae'r mesur yn ogystal yn gwneud Gweinidogion yn gyfrifol am sicrhau bod pobl yng Nghymru yn gwybod am, yn deall ac yn parhau'r hawliau sydd gan blant a phobl ifanc fel yr amlinellir yn Erthygl 42 o CCUHP.

Yn unol â CCUHP, mae'r Mesur yn nodi'n benodol bod yn rhaid i blant a phobl ifanc ledled Cymru helpu i lunio'r cynllun. O ganlyniad i'r amod hwn, comisiynwyd Re:cognition i gynnal ymarfer ymgynghori ledled Cymru, gyda'r nod o drefnu a hwyluso cyfres o weithdai lle gallai plant a phobl ifanc:

- Adolygu a rhoi adborth ar ddogfen ymgynghorol ddrafft Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Plant.
- Mynegi eu barn ar y cynllun.
- Mynegi eu barn ynglŷn â beth arall ddylai fod yn y Cynllun Plant.
- Awgrymu sut y gall Gweinidogion Cymru sicrhau bod pawb yn gwybod am hawliau plant a'u bod yn cefnogi'r hawliau hynny.
- Awgrymu sut yr hoffent roi adborth i Lywodraeth Cymru.
- Awgrymu sut y gallet sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal?

### 3. Methodoleg

#### Gweithdy Cyffredinol ar Fethodoleg

Diben Re:cognition drwy gydol yr ymgynghoriad hwn oedd casglu barn ystyrion a defnyddiol gan blant a phobl ifanc. Roedd ein methodoleg wedi'i hanelu at sicrhau bod y cyfranogwyr yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel, tra'n deall pwysigrwydd y materion dan sylw er mwyn iddynt fod yn gwbl barod ac yn gallu mynegi eu barn yn onest ac yn ystyriol.

Tra bod y gweithdai'n aml wedi'u teilwra i weddu i anghenion pob grŵp, roeddent yn gyffredinol yn dilyn strwythur tebyg, gan gynnwys tair adran:

1. Croeso
2. Rhoi gwybodaeth ac archwilio materion
3. Casglu barn

## 1. Croeso

Mae'r cam hwn o'r gweithdy fel arfer yn defnyddio ystod o gemau ac ymarferion rhagarweiniol i greu amgylchedd egniol a hamddenol. Fodd bynnag, roedd yr holl weithdai hyn ar-lein yn ei gwneud yn anodd iawn i weithredu yn y modd arferol. Mewn un grŵp, roedd un o'r bobl ifanc wedi llunio cwis CCUHP gyda phob un o'r cyfranogwyr yn cymryd rhan. Roedd hwn yn syniad gwych ac yn anfwriadol dilyn union yr un drefn a thrafodaethau agoriadol am CCUHP a gawsom gyda grwpiau eraill. Er nad oeddem yn gallu gweithio yn ein ffordd weithredol arferol, roedd yr amcanion yn aros yr un fath:

- Cyflwyno'r tîm Re:cognition a dangos ein bod yn bobl gyfeillgar ac agos atoch sy'n gwrandao'n barchus ar yr hyn sydd gan blant i ddweud ac yn mwynhau ymuno â'r grŵp – h.y. dechrau meithrin perthynas.
- Modelu natur ryngweithiol a pharchus y sesiwn gyfan, lle anogwyd y plant i rannu eu syniadau a'u barn a gofyn iddynt wneud hynny o fewn fframwaith clir, strwythuredig.


## 2. Rhoi gwybodaeth ac archwilio materion

Wrth gyflwyno ymgynghoriadau i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau wyneb yn wyneb, rydym nid yn unig yn defnyddio'r fersiwn gyhoeddedig o'r ddogfen ymgynghori plant, ond yn hytrach rydym ni'n creu un sy'n ymgorffori'r fersiwn gyhoeddedig tra hefyd yn cefnogi ein technegau dysgu gweithredol sy'n seiliedig ar ddrama. Fodd bynnag, oherwydd amgylchiadau unigryw'r gwaith hwn, cynlluniwyd y fersiwn gyhoeddedig o'r ymgynghoriad plant i weithio fel dogfen PowerPoint. Darparwyd y ddogfen hon i bartneriaid y gweithdai ac fe ddefnyddion nhw rywfaint o'r wybodaeth cyn y gweithdy er mwyn annog pobl i fynychu.

Er mwyn casglu barn ystyrion, roedd yn hanfodol ein bod yn cyfleu manylion a chefnidir y Cynllun Plant mewn modd clir a diddorol. Roedd y ffyrdd y gwnaethom hyn yn debyg i bob grŵp er ei fod wedi'i addasu ar gyfer hygrychedd. Ar gyfer un grŵp, newidiwyd y cyflwyniad yn sylweddol i fod ar gael yn wybyddol i'r holl gyfranogwyr. Cynhyrchodd grŵp arall fideo dwyieithog da iawn lle'r oeddent yn annog plant i gwblhau'r ymgynghoriad ar-lein. Fel arfer rydym yn canolbwyntio ein gwybodaeth ar dechnegau drama syml; megis personoli, creu cymeriad a sefyllfaoedd ffuglennol. Mae'r dulliau drama hyn yn creu ymgysylltiad deallusol ac emosiynol uniongyrchol lle na ofynnir i'r plant ystyried rhyw gysyniad haniaethol; maent yn edrych ar eu cyd-ddisgyblion ac yn meddwl yn uniongyrchol amdanynt, y person o'u blaenau, ond byddai'r dull hwn wedi bod yn anodd iawn i'w weithredu o dan yr amgylchiadau hyn.

Dechreuodd bron pob un gweithdy gydag esboniad a thrafodaeth ynglŷn â'r Cenhedloedd Unedig a'i Ddatganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol 1948. Yna

datblygodd y drafodaeth i'r angen am gyfres o hawliau wedi'u targedu'n well – CCUHP. Gan adeiladu ar y wybodaeth hon, amlinellwyd llinell amser CCUHP gyda Chymru yn flaenoriaeth ac yn ganolog i'r trafodaethau a ddilynodd.



Mae rhai o'r terminolegau a ddefnyddir yn yr CCUHP a'r cynllun plant yn gymhleth ac ni chânt eu defnyddio yn gyffredinol ar lafar. Cyn y gallem symud ymlaen at y cynllun Plant ei hun, buom yn gweithio drwy rai o'r cysyniadau sylfaenol megis cyfreithiau, dyletswydd a sylw dyledus.

Ar ôl deall y termau hyn (ar adegau roedd hyn yn beth anodd i'w fesur), fe symudon ni ymlaen i'r cam nesaf.

**Beth yw Cyfreithiau?**  
Rhaid dilyn cyfreithiau.

**Beth yw ystyr dyletswydd?**  
Mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid i Weinidogion ei wneud fel rhan o'u swydd.

**Beth yw sylw dyledus?**  
Rhoi ystyriaeth gytbwys i faterion, gan gynnwys hawliau plant, wrth wneud penderfyniadau.

**Beth yw'r Cynllun Hawliau Plant?**  
Mae'r Cynllun Hawliau Plant yn ddogfen gan Lywodraeth Cymru sy'n dangos sut maen nhw'n rhoi sylw dyledus i'r CCUHP.



Yn yr adran nesaf, fe edrychom ni yn uniongyrchol ar Erthyglau CCUHP.

## Erthyglau CCUHP

Ar ôl creu cyd-ddealltwriaeth o'r cysyniadau, gwnaethom archwilio erthyglau UNCRC yn eithaf manwl:



**DEALL BY HAWLIAU**

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn gytundeb rhyngwladol sy'n amddiffyn hawliau dynol plant hyd at 18 oed. Dyma'r erthyglau:

**Erthygl 1**  
Mae gan bob dan 18 oed yr hawliau yma.

**Erthygl 2**  
Mae gan bob plentyn yr hawliau hyn waeth beth.

**Erthygl 3**  
Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant bob amser wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn.

**Erthygl 4**  
Dylai'r llywodraeth sicrhau bod yr holl hawliau yma ar gael i bob plentyn.

**Erthygl 5**  
Dylai llywodraethau helpu rhieni i dy helpu di i wybod am dy hawliau a'u defnyddio wrth i ti dyfa.

**Erthygl 6**  
Mae gan i'r hawl i ffrwyd ac i dyfa i fod yn iach.

**Erthygl 7**  
Dy hawl i chwarae a chereddigrwydd.

**Erthygl 8**  
Dylai'r llywodraeth batthu dy hawl i enw, cenedlogrwydd a theulu.

**Erthygl 9**  
Dy hawl i fod gyda dy rieni os mai dyna sydd orau i ti.

**Erthygl 10**  
Dy hawl i weld dy deulu os ydyn nhw'n byw mewn gwlad arall.

**Erthygl 11**  
Dy hawl i bedio a chael dy gymryd o'r wlad yn anghyfreiflon.

**Erthygl 12**  
Dy hawl i ddwyn beth ddylai ddigwydd ac i rywun wrando arnot ti.

**Erthygl 13**  
Dy hawl i gael gwybodaeth.

**Erthygl 14**  
Dy hawl i ddwyn dy greidd dy hun.

**Erthygl 15**  
Dy hawl i gyfarfod â ffrindiau ac ymuno â grwpiau a chlybiau.

**Erthygl 16**  
Dy hawl i breifatrwydd.

**Erthygl 17**  
Dy hawl i wybodaeth onest yr wyf yn ei doddi gan hapurau newydd a'r teledu.

**Erthygl 18**  
Mae'r ddau riant yn rhannu'r cyfrifdebet dros tagu eu plant, a dylent bob amser feddwl am yr hyn sydd orau ar gyfer bob plentyn.

**Erthygl 19**  
Ni ddylent gael dy newidlo a dylent gael gofali a dy gadw'n ddiogel.

**Erthygl 20**  
Dylent gael gofali iawn os nad wyt i'n gallu byw â dy deulu dy hun.

**Erthygl 21**  
Dy hawl i fyw yn y lle sydd orau i ti os nad wyt i'n gallu byw gyda dy rieni.

**Erthygl 22**  
Mae gan blant sy'n fforduriaet yr un hawliau a phlant a aned yng Nghymru.

**Erthygl 23**  
Dy hawl i dalai a chymorth arbennig os wyt i'n anafol er mwyn i ti fyw bywyd llawn ac anghyffwrdd.

**Erthygl 24**  
Dy hawl i ffrwyd a dŵr da ac i weld meddyg os wyt i'n sâl.

**Erthygl 25**  
Dylid mynd i weld plant nad ydynt yn byw gyda'u teuluoedd yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn iawn.

**Erthygl 26**  
Dy hawl i arian ychwanegol os nad oes gan dy deulu ddigon o arian i fyw.

**Erthygl 27**  
Dy hawl i saloni byw dda.

**Erthygl 28**  
Dy hawl i ddsygu a mynd i'r ysgol.

**Erthygl 29**  
Dy hawl i gorau y gallu di fodi.

**Erthygl 30**  
Dy hawl i ddefnyddio dy iaith dy hun.

**Erthygl 31**  
Dy hawl i ymlacio a chwarae.

**Erthygl 32**  
Dylent gael dy amddiffyn rhag gwaith sy'n ierogus.

**Erthygl 33**  
Dylent gael dy ddiogelu rhag cyffuriau peryglus.

**Erthygl 34**  
Dylai'r llywodraeth amddiffyn plant rhag cam-drin rhywiol.

**Erthygl 35**  
Mae gan i'r hawl i bedio a chael dy weithu.

**Erthygl 36**  
Dylent gael dy amddiffyn rhag gweineid poetha a allai dy newidlo di.

**Erthygl 37**  
Dy hawl i gael dy drin yn deig os wyt i'n torri'r gyfraith.

**Erthygl 38**  
Dylai plant gael eu hamddiffyn yn ystod rhyfel ac os ddylent caniatáu ddsygu gwaed yn y tydd os ydyn nhw o dan 15 oed.

**Erthygl 39**  
Dylai plant gael cymorth arbennig os ydynt wedi cael eu cam-dro.

**Erthygl 40**  
Dy hawl i gymorth cyfreithol os wyt i wedi cael dy gyffwrdd o ddrin i'r gyfraith.

**Erthygl 41**  
Os yw cyfreithau dy wlad yn dy warchod yn well na'r hawliau ar y rhestr hon, dylai'r cyfreithau hyspys arn.

**Erthygl 42**  
Rhaid i'r llywodraeth roi gwybod i blant a theuluoedd am hawliau plant.

**Erthyglau 43-54**  
Mae'r erthyglau yn trafod sut dylai llywodraethau a sefydliadau weithio i sicrhau y caiff plant eu hamddiffyn yn eu hawliau.


Am wybodaeth am y Confensiwn ym 1989: [https://www.childrenswales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/cche\\_right\\_gover\\_wel.pdf](https://www.childrenswales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/cche_right_gover_wel.pdf)

Isod ceir rhestr o rai o'r hawliau a drafodwyd, fodd bynnag, nid yw'r rhestr hon yn gyfyngedig:

- **Erthygl 2** - Mae gan bob plentyn yr hawliau hyn waeth beth.
- **Erthygl 12** - Eich hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd ac i rywun wrando arnoch.
- **Erthygl 13** - Eich hawl i gael gwybodaeth.
- **Erthygl 31** - Eich hawl i ymlacio a chwarae
- **Erthygl 24** - Eich hawl i fwyd a dŵr da ac i weld meddyg os ydych yn sâl.

Gwnaethom ddarganfod bod gan oddeutu 75% o'r cyfranogwyr wybodaeth isel/dim gwybodaeth am CCUHP. Er mwyn caniatáu i gyfranogwyr gysylltu â'r CCUHP, gofynnwyd iddynt ddewis eu hoff Erthygl gan arwain at ganlyniadau cymysg. Wrth weithio mewn dosbarthiadau ysgol, oherwydd bod yna berthynas agos, mae gennym eisoes y fantais o lefelau uchel o hyder rhwng cyfoedion wrth drafod materion o fewn gweithdy, gan adael ein prif dasg sef creu hyder ynom ein hunain. Fodd bynnag, wrth weithio gyda grwpiau cymysg, mae'n anodd sicrhau hyder rhwng cyfoedion o fewn yr amser sydd ar gael.

### Pum adran y Cynllun Hawliau Plant



**Y Cynllun Hawliau Plant**

**Mae gan y Cynllun Hawliau Plant 5 adran:**

1. Gosod hawliau plant wrth wraidd cynllunio;
2. Sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i gyrraedd eu potensial llawn;
3. Helpu plant i fod ar eu gorau ac i ddefnyddio'u hawliau;
4. Gwrando ar blant a rhoi sylw ystyrlon i'w barn;
5. Dylai Llywodraeth Cymru fod yn atebol i blant am benderfyniadau a chymau gweithredu sy'n effeithio ar eu bywydau.

Gallu di ddod o hyd i ragor o wybodaeth am hawliau plant yng Nghymru fan hyn: <https://llyw.cymru/hawliau-plant>

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Drwy ddefnyddio PowerPoint a chynnal trafodaethau, fe weithion ni drwy bum adran y Cynllun Hawliau Plant. Dadansoddwyd a thrafodwyd pob adran ynddo'i hun. Unwaith yr oedden ni'n fodlon â'r dysgu, fe ddangoson ni sut

roedd y pum adran hyn yn creu ac yn adlewyrchu'r dasg a oedd yn ofynnol i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i roi sylw dyledus i hawliau plant yn yr holl waith y mae'n ei gynllunio ac yn ei gyflawni.

Roedd gweithio drwy fideo ar-lein yn creu heriau ychwanegol gan fod yna lawer o wybodaeth yn cael ei chyflwyno a hynny drwy ddull cyfathrebu israddol.

Roeddem yn ymwybodol bod angen dull ailadroddol ar y dysgu hwn ac fe hwyluswyd hyn gan weddill y sleidiau a hyd yn oed yn fwy felly yn y trafodaethau sy'n gysylltiedig â phob un o'r chwe chwestiwn.

### **Esbonio rolau a hyfforddiant**

Roedd yn hanfodol cadarnhau beth yw Llywodraeth Cymru, beth mae'n ei wneud, a beth yw rolau gwahanol garfanau.

#### **Er mwyn helpu i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn ystyried hawliau plant, mae gennym y rolau allweddol canlynol yn y llywodraeth:**

- Gweinidogion y Llywodraeth. Mae Gweinidogion yn eistedd yn y Senedd ac yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar holl bobl Cymru, gan gynnwys plant.
- Swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae'r swyddogion hyn yn darparu gwybodaeth a chynghor i Weinidogion.
- Cyfarwyddwyr. Mae cyfarwyddwyr yn darparu cynghor a chefnogaeth barhaus i Weinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru.



Er mwyn cefnogi hyn, gwnaethom dynnu sylw at nifer y bobl ym mhob un o'r tri grŵp a'u tasgau. Fe wnaethom symud ymlaen i drafodaethau ynglŷn â sut y gall y bobl hyn gael eu cyfarparu i wybod sut y gallant weithio tuag at gyflawni hawliau i blant a phobl ifanc. Hyfforddiant oedd yr ateb amlwg gan nad yw pob Gweinidog, swyddog a chyfarwyddwr eisoes yn arbenigwyr. Mewn rhai grwpiau, trafodwyd sut olwg fyddai ar yr hyfforddiant hwnnw a sut y gallai fod angen iddo fod yn wahanol i bobl sy'n cyflawni rolau gwahanol.

## **Gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth**

Roedd yr adran hon yn cysylltu ac yn adeiladu ar drafodaethau blaenorol gan arwain at rywfaint o drafodaeth dda.

Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn deall yn hawdd yr angen am dystiolaeth gref wrth wneud penderfyniadau ac yn adlewyrchu hyn wrth gyfrannu. Trafodwyd Erthygl 12 eto ac fe wnaethom archwilio sut y dylai barn pobl ifanc fod yn rhan o'r broses adeiladu ar sail tystiolaeth a bod hon yn ddyletswydd gyfreithiol.

## **Hysbysu a chynnwys plant a phobl ifanc**

Amlygodd y cyfranogwyr ar sawl achlysur sut y byddent yn gallu darganfod a oedd Llywodraeth Cymru yn cyflawni eu dyletswyddau CCUHP. Trafodwyd hyn a cheisiwyd datrysiadau ond nid rhai cynhwysfawr gan fod y pwnc hwn i gael ei ddatblygu wrth ateb y cwestiynau.

Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar benderfyniad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi adroddiad bob 2.5 mlynedd yn nodi sut y maen nhw wedi cefnogi hawliau plant.

Yn ogystal, buom yn trafod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynhyrchu fersiynau cyfeillgar i blant o'u polisiau a fydd yn effeithio ar blant a phobl ifanc.

## **Dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif**

Mae adran pump y cynllun yn cydnabod bod atebolrwydd i blant a phobl ifanc yn allweddol er mwyn i'r cynllun hwn lwyddo. Dechreuodd y trafodaethau i ffwrdd o'r cynllun gan ganolbwyntio ar yr angen cyffredinol i gwyno a sut y gall hyn helpu darparwyr gwasanaeth i wella eu gwaith. Gyda'r egwyddor wedi'i sefydlu, llywiwyd y drafodaeth i berthynas â'r cynllun. Esboniwyd pe bai cyfranogwyr, neu unrhyw un o'u ffrindiau yn teimlo nad yw Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi ystyried hawliau plant wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, gallant yn unigol neu fel rhan o grŵp, ddilyn o leiaf dri llwybr:

### **Er mwyn helpu Gweinidogion i wneud penderfyniadau da sy'n ystyried hawliau plant, bydd staff Llywodraeth Cymru yn:**

- Ystyried CCUHP yn eu gwaith gan gynnwys deddfwriaeth a pholisiau.
- Defnyddio'r dystiolaeth ymchwil ddiweddaraf o Gymru, y DU ac ar draws y byd i ddeall beth sy'n helpu i wella hawliau plant.
- Gofyn barn arbenigwyr.
- Gwrando ar adborth gan blant a phobl ifanc.
- Defnyddio'r Asesiad Effaith ar Hawliau Plant.

**Er mwyn helpu plant ac oedolion i ddangos sut mae Llywodraeth Cymru yn ystyried hawliau plant wrth wneud penderfyniadau, bydd Gweinidogion yn cyhoeddi adroddiad bob 2.5 mlynedd yn nodi sut y maent wedi cefnogi hawliau plant.**

**Pan fydd polisiau'n effeithio ar blant a phobl ifanc, anogir staff Llywodraeth Cymru i gynhyrchu fersiynau sy'n addas i blant.**



1. Cyswllt uniongyrchol â Gweinidog Llywodraeth Cymru neu drwy eu cynrychiolydd yn Senedd Cymru.



2. Cysylltu â Chomisiynydd Plant Cymru gan y gallant eich cynorthwyo i herio Gweinidogion.



3. Cysylltwch â MEIC, y Gwasanaeth Llinell Gymorth Genedlaethol ynghylch Eiriolaeth, Gwybodaeth a Chyngor i blant a phobl ifanc yng Nghymru, gan eu bod ar gael i gynghori a darparu gwybodaeth i blant a phobl ifanc sy'n dymuno herio Gweinidogion.



Roedd nifer y trefnwyr hyn yn synnu o ddarganfod bod y gefnogaeth hon o fewn cylch gwaith MEIC.

Buom hefyd yn trafod ffyrdd ychwanegol o gael cymorth sef gan drefnwyr ieuenctid dibynadwy fel y bobl sy'n helpu heddiw. Cadarnhaodd y gweithwyr cymorth ieuenctid y byddent yn hapus i gynorthwyo gydag unrhyw gwynion neu eich rhoi mewn cysylltiad â'r rhai sy'n gallu eich cynorthwyo.

### 3. Casglu Barn

O ran cwestiynau ffurfiol yr ymgynghoriad, oherwydd y ffordd y gwnaethom strwythuro'r dysgu, nid oedd y plant yn ymateb yn unig gyda'r syniadau cyntaf a ddaeth i'w pennau, ond yn hytrach trwy wybodaeth gefndir.

Gofynnwyd pob cwestiwn i'r grŵp cyfan (a'i daflunio trwy PowerPoint), roedd trafodaeth yn caniatáu i unrhyw eglurhad gael ei wneud a nodwyd ymatebion. Cafodd y sesiynau eu recordio hefyd er mwyn adrodd y sylwadau gair am air.

#### Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Aeth cwestiynau'r ymgynghoriad drwy dipyn o ailadrodd wrth ddatblygu dogfen ymgynghori'r Cynllun Plant. Trwy weithio gyda Llywodraeth Cymru, roeddem yn glir na ddylid gofyn unrhyw gwestiwn na allai'r cyfranogwyr ymgysylltu'n llawn â nhw. Roedd yn rhaid i'r holl gwestiynau fod ar gael i'r ystod eang o blant a phobl ifanc yr oeddem yn ymgynghori â nhw. Yn yr un modd â phob ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc, ni ymatebwyd i'r cwestiynau mewn dull llinol yn unig oherwydd bod un myfyrdod yn arwain at un arall ac roedden nhw am fynegi'r myfyrdod hwnnw hefyd. Mae hyn yn golygu y gallai'r atebion i rai o'r cwestiynau

a restrir yn ddiweddarach yn y ddogfen hon fod mewn ymateb i un arall felly er mwyn eglurder, rydym wedi ail-drefnu.

## 4. Adborth yr ymgynghoriadau

Gofynnwyd pob cwestiwn i bob grŵp ond ni atebwyd pob un ohonynt yn gyfartal. Roedd mwyafrif y grwpiau'n cael mwy o anhawster i ymgysylltu â chwestiynau un a dau. Nid oedd hyn yn syndod gan fod y cwestiynau hyn y tu allan i'w gwybodaeth neu eu profiad uniongyrchol – mae pobl ifanc yn arbenigwyr yn eu bywydau eu hunain.

Roedd tipyn o orgyffwrdd rhwng cwestiwn tri a phump ac roedd yn amlwg bod gan mwyafrif y cyfranogwyr fwy o ddi-ddordeb mewn cyfathrebu dwyffordd, deialog, yn hytrach na throsglwyddo gwybodaeth i un cyfeiriad neu'r llall.

Fe wnaeth y cyfranogwyr fwynhau cwestiwn pedwar gan ei fod yn caniatáu iddynt ddefnyddio'r dealltwriaeth gref oedd ganddynt eisoes ar sut i ddarparu gwybodaeth i eraill.

Ychydig o sylw a gafodd cwestiwn chwech ac roedd yn ymddangos braidd yn rhyfedd o'i gymharu â'r cynnwys blaenorol.

Yr hyn sy'n dilyn yw cyfrifon manwl pob sesiwn ymgynghori. Fodd bynnag, er mwyn cydymffurfio â GDPR, rydym wedi'u grwpio fesul cwestiwn yn hytrach na fesul digwyddiad.

### Cwestiwn 1

**Mae'r Cynllun Hawliau Plant yn amlinellu cynlluniau Gweinidogion Cymru i gefnogi Hawliau Plant. A oes gennych unrhyw farn am y cynllun?**

**Mae angen iddo fod yn fwy disgrifiadol:**

'It needs to say how they will get into classrooms, get more involved, because I know our schools talks about getting us involved and stuff, but don't actually do anything.'

'It does not go far enough.'

'Nothing in here to directly helps us get our voice heard.'

'Ministers know nothing about our opinions.'

'Say someone's writing a script. Either they give it to the people who have to, they give it to the actors, because they want to get the actors opinion on it that script already been written, and if something is in their eyes, terrible. There's very little, they can do to change it. Because if you're not there in

the beginning, learning what people need and want, then asking them later after you've done it means you'll be missing out on excellent opportunities for children to give input and possibly make stuff like this better now.'

### **Grŵp menywod ifanc anabl**

Dyweddodd grŵp menywod ifanc anabl eu bod yn hoffi'r cynllun ac yn deall eu hawliau. Roeddent yn gallu cydnabod eu hawliau i dderbyn addysg dda, bywyd iach a chael eu cadw'n ddiogel. Esbonion nhw y byddent yn teimlo'n hyderus, i geisio cymorth, pe na bai rhywun yn gwrando ar eu hawliau (a oedd yn cefnogi 5 adran y cynllun: helpu plant i fod y gorau y gallant fod ac i ddefnyddio eu hawliau).

Dywedon nhw nad oeddent yn ymwybodol o'r cynllun hwn cyn y cyflwyniad ond yr hoffent gael rhagor o wybodaeth a allai gefnogi eu barn ar fenywod ifanc ag anghenion dysgu. Hoffent weld gwybodaeth fwy penodol am sut mae'r cynllun yn cefnogi plant a phobl ifanc ag anabledau ac anghenion dysgu yng Nghymru.

Gallai'r merched hefyd gydnabod y gellid ystyried bod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn fwy ffodus o'i gymharu â phlant a phobl ifanc eraill, yng ngwledydd y trydydd byd nad oes ganddynt yr un hawliau bob amser.

### **Wrth ystyried y cynllun:**

'I feel like sometimes in the past organisations have done children's rights as tokenism. Yeah, sometime people talk to us, but we haven't really done anything meaningful in consultation with young people or children. Not sure this will make a difference as I can see nothing to say how they will be involving us. Maybe just more tokenism'

### **Siarad i gefnogi cydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru ag Erthygl 12:**

'I was a member of the youth Parliament and I had really good meetings during the pandemic with the First Minister and other ministers, and I think it's good that the government has an open dialogue with young people.'

### **Cyflwyno ar draws y byd:**

'I was thinking of, like, putting this type of scheme across the world, because other countries may not have this type of scheme, and they might have a bigger population than our country and more people who are at risk. So, I think we need to make everybody as a world to back this scheme.'

### **Wrth ystyried y Cynllun:**

'I think for the core of this children's rights scheme is the right framework. But having rights does not mean you have equal opportunity. There are barriers that need to change and this scheme does not show you how to do this.'

## Cwestiwn 2

### Beth arall ddylai fynd i mewn i'r Cynllun?

#### Llinell amser:

'It needs a clear timeline so we can know when to expect change. Knowing when it's coming, what difference is it going to make and when's it going to happen'

#### Ehangu cwmpas y cynlluniau:

'Yeah, I think really there should be an emphasis on smaller organisations following children's rights properly. Because you know it's all good that ministers have to do it, but when it comes to the actual services who work directly with young people, well it's not ministers is it. All organisations who support young people should be made to do it properly.'

#### Ymgorffori amrywiaeth mewn ymgysylltu:

'They should have to listen to children like us who have disabilities, Yes, and people who have different background and the scheme should say that.'

'I 100% agree, if you don't talk to people from more niche of parts of societies and only look at one specific part of young people, then you're only gonna get one specific views of the few yeah. They must include wide variety of people.'

#### Gwybodaeth am hawliau plant i'r rhai mwyaf bregus:

'Until today, I did not know anything about children's rights, I did not know it was a thing and it seems like it's a whole movement. How we can find out should be in the scheme.'

'Young people living in difficult circumstances have the least rights. All those articles we looked at, loads of kids are not provided with what they should be, their rights are broken. And these kids may not know anything about their rights.'

#### Rhaid ei gwneud yn ofynnol i ysgolion addysgu hawliau plant:

'We can't comment if we know little about our rights. It should be embedded in the curriculum from day one in school. Schools need to be told to do it.'

#### Dulliau ymgysylltu:

'The scheme should state how they will engage with young people in detail. There are lots of already formalised networks, why not use them and say how.'

'It's good to have this really nice plan. But if young people don't know about it, it's kind of a bit pointless really.'

**Rhaid i ysgolion a gwasanaethau iechyd alluogi hawliau plant:**

But if young people don't know about it, it's kind of a bit pointless really.'

'Having a right to healthcare also means nothing if you can't get it, like mental health, not much support, or support for people with learning needs.'

'Schools should be made to have a children's rights charter where they have to prove the work they are doing in school to get fully behind children's rights by actual supporting people.'

'Doctors don't take teenagers seriously and don't tend to stick to children's rights, so maybe more education for health professionals but certainly doctors.'

**Grŵp menywod ifanc anabl**

Yn debyg i grwpiau eraill, hoffent weld gwybodaeth fwy penodol am sut mae'r cynllun yn cefnogi plant a phobl ifanc ag anabledau ac anghenion dysgu yng Nghymru. Hoffai'r merched wybod mwy am sut y gallai eu hawliau newid wrth iddynt dyfu'n oedolion ag anghenion dysgu.

**Cymorth pleidleisio**

Mewn sawl grŵp, roedd cyfranogwyr yn dymuno cael gwersi gwleidyddiaeth gan weld yr angen i bleidleisio mewn ffordd wybodus.

'People are unaware of what they are voting for.'

'Political education should be mandatory in schools. This should be a right – its needed.'

'I think there should be more awareness about these things. I know about voting in elections and things like that, because I'm very involved in politics, but I knew a lot of other people, my friends, they don't understand, they have no idea who how to get involved and what information is available to them, and how it can affect them directly as a child.'

**Bod yn glir ynglŷn ag oedran:**

The scheme should be clearer about the ages it supports. Young people are supported in Wales up to the age of 24.'

**Dim digon o fanylion:**

'I would say there needs to be more detail, I know training would give more detail, but I would personally prefer more detail in this scheme, because often, especially if you're a young carer, you see the words they know the words, they understand the words but they can just nod along agree - and then it becomes a tick box. But if there's more detail and strict criteria for each point it's harder to sit there nodding

**Ni oes sôn am gyd-gynhyrchu:**

'Does Welsh Government understand co-production? If they do, they should use it with young people.'

**Gwybodaeth am y Senedd Ieuenctid:**

'I did not know about the Youth Parliament until today.'

### Cwestiwn 3

## Sut allwch chi chwarae mwy o ran wrth ddylanwadu ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru?

### Neges Allweddol:

'Government should talk to us like you're their friend rather than being an adult that has power over us, talk to us like you're there to actually listen, not like you're there to just collect data, because I think people are going to be a lot more honest if they think you actually want to listen and you actually care about their opinions.'

'I think we could be more involved if we had more knowledge about what's going on.'

'Voices need to be heard and they need to have a way to know that how they're contributing is making the difference.'

'When we get involved with say a consultation, what happened with it does not come back to us to say what decisions were made. It makes you think why bother.'

### Cwrdd â gwleidyddion yn uniongyrchol:

'We had a good meeting with Eluned Morgan where she asked us what we thought of how they've dealt with mental health problems. We felt listened to. This was much better than a survey, you can get a conversation'

'People are more affected when they hear it directly from young people rather than statistics.'

'I think it made a difference hearing it from actual kids from that experience rather than just hearing it from someone who works with her.'

'Maybe video conferencing with ministers in schools if that would work. Yeah, they could do say 15 or 20 minutes per school and get round a few. That would be a lot of schools in a month.'

'Zoom, yeah, it offers ways forward because I think it's easier for people across Wales to contribute to these discussions online, because people live in different areas, rural areas and getting to meetings can be hard.'

'The most important thing is face to face time, in real life or on video conference.'

